


Mewnblaniadau* Deintyddol

Beth ydyn nhw?

Mae mewnblaniadau yn un ffordd o amnewid* dannedd sydd wedi'u colli.

Yn wahanol i ffyrdd eraill o amnewid dannedd, mae mewnblaniadau deintyddol yn ddyfeisiau bychain o fetel neu seramig, heb fod yn annhebyg i ffitiad sgriw*, sy'n cael eu gosod i mewn yn yr ên yn ystod llawdriniaeth. Wedyn, atodir dant/ dannedd, ar ffurf coron, pont* neu ddannedd gosod, i'r mewnblaniad.



Beth ydi'r manteision?

Mae rhai pobl yn cael trafferthion gwirioneddol gyda dannedd gosod symudadwy*. Gall mewnblaniadau oresgyn y problemau hyn, yn enwedig ar gyfer bwyta a siarad yn iawn, ac fe allant wneud i chi edrych yn well. Os ydi dannedd gosod yn angenrheidiol, gall mewnblaniadau wella sefydlogrwydd yn arw iawn. Ni all pobl weld bod eich dannedd gosod yn cael eu cynnal gan fewnblaniadau. Gellir defnyddio mewnblaniadau yn lle pontydd – er enghraifft, pan nad ydi dannedd cyfagos yn ddigon cryf i gynnal pont neu os oes bylchau rhwng dannedd y claf.

A fyddai mewnblaniadau'n addas i mi?

Dylech drafod gyda'ch deintydd a fyddai mewnblaniadau'n addas i chi.

Dylai cleifion fod â gorchfannau* iach, a digon o asgwrn gên i gymryd y mewnblaniad sy'n cynnal y dannedd amnewid er bod technegau ar gael i ychwanegu rhagor o asgwrn pe bai angen hynny. Dylent hefyd fod yn barod i ofalu am hylendid* y geg ac ymweld â'u deintydd yn rheolaidd.

Dylai cleifion mewnblaniad hefyd fod ag iechyd cyffredinol da. Fe allai rhai afiechydon cronig, fel clefyd siwgr, osteoporosis neu broblemau sinws cronig, amharu ar y broses wella a pheri i'r mewnblaniadau fod yn fwy tebygol o fethu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth eich deintydd am unrhyw foddion yr ydych yn eu cymryd yn rheolaidd, ac am eich arferion ysmegu. Mae'n eithaf tebygol y gall ysmegu fyrhau oes eich mewnblaniad.

Mae mewnblaniadau'n golygu y bydd yn rhaid cael llawdriniaeth dros gyfnod o rai misoedd.

Gan fod eu gosod yn ffurf gymhleth o driniaeth, gall mewnblaniadau fod yn ddrudd.

Beth a wna fy neintydd?

Dylai eich deintydd ddweud wrthych am y gwahanol gamau yn y driniaeth, pwy fydd yn cyflawni pob cam, a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r driniaeth. Mae'n bosib y cewch eich cyfeirio at arbenigwr.

Dyma beth fydd yn digwydd:

- Dadorchuddir asgwrn yn yr ên lle mae'r dant ar goll. Yna caiff twll ei ddrilio a gosodir y mewnblaniad yn yr asgwrn. Caiff hyn ei wneud fel arfer dan anesthetig lleol, ond weithiau bydd angen tawelydd* neu anesthetig cyffredinol. Bydd y gorchfan yn cael ei bwytho wedyn dros y mewnblaniad a'i adael i wella dros gyfnod o rai misoedd. Mae hyn yn caniatáu i asgwrn dyfu o gwmpas y mewnblaniad a'i wneud yn gadarn.
- Cynllunnir ail gam pan fydd y dannedd amnewid yn cael eu gosod ar y mewnblaniad. Mae hyn yn gofyn am wneud toriad bach yn y gorchfan uwchben y mewnblaniad. Unwaith y bydd y feinwe feddal* wedi gwella, gellir gosod y dannedd amnewid yn barhaol neu eu cysylltu yn y fath fodd fel eich bod yn gallu eu tynnu allan i'w glanhau. Gall yr amnewidiadau fod yn ddant sengl neu mewn grŵp ac, efallai, fel pont, wedi'i chydio wrth ddannedd naturiol cyfagos.

GEIRFA: amnewid = *replace(ment)*; dannedd gosod symudadwy = *removable dentures*; ffitiad sgriw = *screw fitting*; gorchfan(nau) – 'gym(s)' ar lafar = *gum(s)*; hylendid = *hygiene*; meinwe feddal = *soft tissue*; mewnblaniad(au) = *implant(s)*; pont(ydd) = *bridge(s)*; symudadwy = *removable*; tawelydd = *sedative*